
Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Swyddog Monitro a Chlerc


## yr Awdurdod Tân ac Achub

Pecyn Ymgeiswyr, Medi 2026






LHH



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso gan Cyng. John Davies | 04 |
| Hysbyseb | 05 |
| Gwybodaeth | 06 |
| Ein Lleoliad | 08 |
| Y Rôl | 10 |
| Y Person | 12 |
| Amodau a Thâl | 14 |
| Sut i ymgeisio | 15 |


PROTECTING OUR COMMUN
Welcome to Mid and West Wales Fire and Rescue Service
STATS FOR APRIL 2025
932
52
52
TOSHIBA
ThinkPad
NEC

# Croeso gan Cyng. John Davies, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Swydd â chyfrifoldeb a dylanwad sylweddol.



Diolch am eich diddordeb yn rôl Swyddog Monitro a Chlerc yr Awdurdod Tân ac Achub yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn y cymunedau a wasanaethwn ar draws un o'r ardaloedd daearyddol mwyaf a mwyaf amrywiol yn y Deyrnas Unedig. Mae ein diffoddwyr tân, staff rheoli a chydweithwyr cymorth yn gweithio bob dydd i gadw pobl yn ddiogel, ymateb i argyfyngau a helpu i adeiladu cymunedau gwydn ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Powys ac Abertawe.

Yr Awdurdod Tân ac Achub sy'n darparu arweinyddiaeth ddemocrataidd a llywodraethiant y Gwasanaeth. Mae sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu'n gyfreithlon, yn dryloyw ac i'r safonau atebolrwydd cyhoeddus uchaf yn hanfodol i gynnal yr ymddiriedaeth a roddir ynom gan y cymunedau a wasanaethwn.

Mae'r Swyddog Monitro yn cyflawni rôl statudol hollbwysig yn hyn o beth. Fel prif gynghorydd yr Awdurdod ar lywodraethu, materion cyfansoddiadol a safonau, mae deiliad y swydd yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn briodol, bod aelodau'n cael eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau, a bod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn parhau i fod yn gadarn, yn foesegol ac yn effeithiol.

Mae hon yn swydd ddylanwadol ac annibynnol sy'n cyfuno cyfrifoldebau statudol Swyddog Monitro â rôl Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub, gan gefnogi'r prosesau democrataidd sy'n sail i'r Gwasanaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda Chadeirydd yr Awdurdod, aelodau, fi fy hun fel Prif Swyddog Tân, a'r tîm uwch arweinyddiaeth ehangach i sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a llywodraethu cryf.

Er mai rhan-amser yw'r rôl (tridiau yr wythnos, gyda hyblygrwydd i ychwanegu diwrnod arall), mae iddi gryn gyfrifoldeb a dylanwad. Felly, rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad cryf o lywodraethu a chyfraith awdurdodau lleol, barn gadarn, a'r gallu i ddarparu cyngor clir a dibynadwy mewn amgylchedd cymhleth yn y sector cyhoeddus. Os ydych chi'n rhannu ein hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus, llywodraethu cryf a safonau moesegol uchel, rwy'n eich annog i ystyried y cyfle hwn i gefnogi arweinyddiaeth effeithiol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Diolch eto am eich diddordeb yn y rôl bwysig hon.

**Cyng. John Davies**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Hysbyseb

## Swyddog Monitro a Chlerc yr Awdurdod Tân ac Achub

**Lleoliad – Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin (Hybrid gydag ymagwedd hyblyg)**
**Cyflog – £110,070 (pro rata ar sail tri diwrnod yr wythnos)**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn amddiffyn ac yn gwasanaethu cymunedau ar draws rhanbarth eang ac amrywiol o Gymru, gan gwmpasu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Powys ac Abertawe. Ein Hawdurdod Tân ac Achub sy'n darparu llywodraethiant democrataidd y Gwasanaeth, gan sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol, yn dryloyw ac er budd gorau'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Rydym nawr eisiau penodi Swyddog Monitro a Chlerc profiadol â hygrededd i'r Awdurdod Tân ac Achub i gefnogi'r Awdurdod i gynnal y safonau uchaf o lywodraethu, uniondeb ac ymddygiad moesegol.

Mae hon yn rôl statudol, sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau'r Swyddog Monitro o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a chynghori'r Awdurdod Tân ac Achub ar faterion cyfansoddiadol, deddfwriaethol a gweithdrefnol. Mae'r rôl hefyd yn gweithredu fel Clerc i'r Awdurdod, gan sicrhau bod ei brosesau democrataidd, ei gyfarfodydd a'i drefniadau llywodraethu'n gweithredu'n gyfreithlon ac yn effeithiol.

Gan weithio'n agos gyda Chadeirydd yr Awdurdod Tân, Aelodau'r Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân, bydd deiliad y swydd yn cynnig cyngor proffesiynol annibynnol ar lywodraethu a safonau, yn goruchwylio Cyfansoddiad a threfniadau Cod Ymddygiad yr Awdurdod, ac yn helpu i sicrhau bod proses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod yn gadarn, yn dryloyw ac yn cydymffurfio â deddfwriaethau a chanllawiau perthnasol.

**Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â:**

- Profiad o amgylchedd cyfreithiol a rheoleiddiol ble rydych wedi cynghori er mwyn sicrhau llywodraethu cryf, yn ddelfrydol mewn amgylchedd sector cyhoeddus
- Profiad o gynghori uwch-arweinwyr ar faterion cyfreithiol, llywodraethu neu weithdrefnol.
- Y gallu i roi cyngor annibynnol, cytbwys a dibynadwy mewn amgylchedd sector cyhoeddus cymhleth.
- Barn, hygrededd a sgiliau cyfathrebu gwych.

Mae hwn yn gyfle gwych i weithiwr proffesiynol llywodraethu profiadol, uwch-gyfreithiwr neu Swyddog Monitro awdurdod lleol gyfrannu at lywodraethu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol yn effeithiol.

Cynigir y rôl ar sail Hybrid, gyda hyblygrwydd i roi cymorth i ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn yr ardal leol. Mae'n rhaid mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ar y safle bob 6 wythnos, a lleoliad y cyfarfodydd hynny yw Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin. Y tu hwnt i'r dyddiau hyn, gellir bod yn hyblyg ynghylch lleoliad.

Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn yr ardal leol a sydd eisiau adleoli, mae lwfans adleoli ar gael.

I gael gwybod mwy a sut i wneud cais ewch i **Penna | Jobs** neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon cysylltwch yn **Execuitve@LHH.com** neu ar **0141 220 6460.**

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner nos ar ddydd Sul 18 Hydref, 2026.**



# Gwybodaeth

## Lleihau perygl a diogelu'r bobl fwyaf bregus ar draws ein cymunedau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn diogelu ac yn gwasanaethu mwy na 900,000 o bobl ar draws bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Rydym yn cwmpasu tua 11,700 cilomedr sgwâr - o Bort Talbot yn y de i ffiniau Powys yn y gogledd, ac o ganolfannau diwydiannol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gymunedau arfordirol Sir Benfro a Cheredigion – ac rydym yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf yn y Deyrnas Unedig yn ôl daearyddiaeth.

**Ein tirwedd sy'n diffinio ein her. Rydym yn rheoli proffil risg amrywiol sy'n cynnwys:**

- Seilwaith petrocemegol ac ynni mawr yn Aberdaugleddau.
- Diwydiant trwm ac amgylcheddau trefol dwys.
- Cymunedau gwledig ac amaethyddol helaeth.
- 650km o arfordir a dyfrffyrdd mewndirol sylweddol.
- Cynnydd tymhorol yn y boblogaeth o ganlyniad i dwristiaeth.

Rydym yn gweithredu o 56 o orsafoedd tân a 2 orsaf wirfoddol ar draws tair adran, gyda chefnogaeth tua 1,350 o gydweithwyr ymroddedig sy'n gweithio mewn ymateb brys, atal, amddiffyn a swyddogaethau corfforaethol.

Er mai ymateb brys sy'n parhau i fod wrth wraidd ein gwasanaeth, mae ein rôl heddiw yn ehangach ac yn fwy ataliol nag erioed.

Rydym yn mynychu miloedd o ddigwyddiadau bob blwyddyn - gan gynnwys tanau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, llifogydd ac achub arbenigol - ond mae ein heffaith yn gynyddol yn cael ei mesur gan y digwyddiadau nad ydynt yn digwydd.

Trwy weithgarwch atal wedi'i dargedu, gorfodi diogelwch tân busnesau, ymgysylltu â'r gymuned, cydweithio ag ymatebwyr meddygol a gweithio mewn partneriaeth, rydym yn lleihau perygl ac yn amddiffyn y bobl fwyaf bregus ar draws ein cymunedau.

Er ein bod yn haeddiannol falch o'n gallu gweithredol, rydym yr un mor falch o'n rôl gynyddol mewn atal, amddiffyn a phartneriaeth.

**Mae ein ffocws strategol presennol yn cynnwys:**

- Cryfhau gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd hirdymor.
- Ymgorffori aeddfedrwydd diwylliannol ac arweinyddiaeth gynhwysol.
- Gwella rhagoriaeth weithredol a gallu rheoli digwyddiadau.
- Dyfnhau cydweithio â'n partneriaid golau glas a gwasanaeth cyhoeddus Cymru.
- Manteisio ar drawsnewid digidol a mewnwelediad data.
- Sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Nid busnes fel arfer yw hyn. Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd o gyfyngiadau ariannol, craffu cyhoeddus a disgwyliadau cymunedol sy'n esblygu. Ein hymateb yw arwain gyda dilysrwydd, tryloywder ac uchelgais - gan wella sut rydym yn defnyddio ein pobl, ein hasedau a'n harbenigedd yn barhaus.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei oruchwylio gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys 25 o Aelodau etholedig sy'n cynrychioli chwech awdurdod lleol cyfansoddol. Fel gwasanaeth, rydym yn atebol i'r cyhoedd ac yn gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae ein ffocws yn syml: darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac effeithlon sy'n ennill ac yn cynnal ymddiriedaeth y cymunedau a wasanaethwn.





# Ein Lleoliad

## Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig cyfuniad prin: gallwch weithio mewn sefydliad sydd â maint a chymhlethdod gwasanaeth brys mawr, ochr yn ochr â byw ansawdd bywyd sy'n gynyddol anodd dod o hyd iddo mewn mannau eraill yn y DU.

### Lle i Anadlu — a Pherthyn

Mae Caerfyrddin, lleoliad ein Pencadlys Gwasanaeth, yn cael ei hystyried yn eang fel y dref hynaf yng Nghymru. Mae'n cyfuno cymeriad hanesyddol â bywiogrwydd diwylliannol a masnachol cynyddol. Mae manwerthwyr, caffis a bwytai annibynnol yn eistedd ochr yn ochr â datblygiadau modern, gyda chysylltiadau trafnidiaeth cryf yn cysylltu'r dref ag Abertawe, Caerdydd a thu hwnt.

Mae'r rhanbarth ehangach yn cynnig harddwch naturiol eithriadol. O Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr i Fynyddoedd Cambria a Bannau Brycheiniog, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig mynediad uniongyrchol i arfordir, cefn gwlad a mannau agored.

I'r rhai sy'n gwerthfawrogi byw yn yr awyr agored, mae'r ardal yn cynnig hwylio, syrffio, beicio, cerdded a gweithgareddau marchogaeth sy'n hawdd eu cyrraedd. I eraill, mae'n cynnig rhywbeth yr un mor werthfawr - gofod, rheolaeth a phersbectif.

### Cysylltedd a Mynediad

Mae Caerfyrddin wedi'i chysylltu'n dda gan reilffyrdd a ffyrdd:

- Gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol i Abertawe, Caerdydd a Llundain.
- Mynediad i goridor yr M4 o fewn tua 30–40 munud.
- Maes Awyr Caerdydd o fewn tua 90 munud.

I uwch arweinwyr sy'n symud o ganolfannau trefol, mae'r cymudo'n cael ei ddisodli gan gymuned.

### Addysg a Chymuned

Mae'r rhanbarth yn elwa o amrywiaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd uchel eu parch yn y sectorau gwladol ac annibynnol. Mae sefydliadau addysg uwch yn Abertawe ac Aberystwyth yn cyfrannu at bresenoldeb myfyrwyr ac ymchwil bywiog ar hyd a lled y rhanbarth. Mae gan ganolbarth a gorllewin Cymru ymdeimlad cryf o hunaniaeth a chymuned. Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn rhan bwysig o fywyd bob dydd sy'n cael ei dathlu, ac mae llawer o arweinwyr sy'n symud i'r ardal yn sôn am y cynhesrwydd a'r croeso maen nhw'n ei dderbyn.

### Tai a Chost Byw

O'i gymharu â llawer o rannau o'r DU, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig gwerth rhagorol mewn prisiau tai, boed yn chwilio am eiddo arfordirol, tawelwch gwledig neu gyfleustra canol tref. Mae'r cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb proffesiynol a lles personol yn wirioneddol gyraeddadwy yma.

### Rôl Arweinyddiaeth gyda Chydbwysedd Ffordd o Fyw


Dyma wasanaeth sy'n mynnu perfformiad uchel - ond mae hefyd wedi'i leoli mewn rhan o'r DU sy'n galluogi arweinwyr i adfywio, myfyrio a chynnal cydbwysedd. Mae symud ar gyfer rôl arweinyddiaeth uwch yn benderfyniad arwyddocaol - yn broffesiynol ac yn bersonol.

I'r rhai sy'n barod i symud, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig mwy na symudiad gyrfa. Mae'n cynnig newid mewn cyflymder heb leihau effaith.





# Y Rôl:
# Swyddog Monitro a Chlerc yr Awdurdod Tân ac Achub



## Cefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol.

Mae'r Swyddog Monitro a'r Clerc i'r Awdurdod Tân ac Achub yn rôl lywodraethu statudol allweddol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae deiliad y swydd yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gweithredu'n gyfreithlon, yn dryloyw ac i'r safonau atebolrwydd cyhoeddus uchaf.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n darparu llywodraethu democrataidd y Gwasanaeth. Mae'n dwyn ynghyd aelodau etholedig o'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol i osod cyfeiriad strategol, goruchwylio perfformiad a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyflawni'n effeithiol ar gyfer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r Swyddog Monitro yn cefnogi'r gwaith hwn trwy ddarparu cyngor proffesiynol annibynnol ar lywodraethu, materion cyfansoddiadol a safonau ymddygiad, gan helpu i sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod yn gadarn, yn dryloyw ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth a fframweithiau rheoleiddio perthnasol.

Gan weithio'n agos gyda Chadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Aelodau'r Awdurdod, y Prif Swyddog Tân a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, bydd deiliad y swydd yn helpu i gynnal trefniadau llywodraethu cryf a sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu gydag uniondeb a hyder y cyhoedd.

Mae'r rôl yn cyfuno cyfrifoldebau statudol Swyddog Monitro â rôl Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub, gan sicrhau bod prosesau democrataidd yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n dda, eu gweinyddu'n briodol a'u bod yn gyfreithiol gadarn.

Er mai rhan-amser yw'r rôl (tridiau yr wythnos), mae iddi gryn ddylanwad a chyfrifoldeb ac mae angen unigolyn sydd â barn gref, hygrededd a phrofiad o lywodraethu mewn cyd-destun sector cyhoeddus cymhleth neu lywodraeth leol.

Ymhlith y cyfrifoldebau allweddol mae:

### Cyfrifoldebau Swyddog Monitro Statudol

- Cyflawni swyddogaethau statudol Swyddog Monitro o dan Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, gan gynnwys adrodd i'r Awdurdod lle gall unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgor arwain at anghyfreithlondeb neu gamweinyddu.
- Cefnogi a hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ar draws yr Awdurdod a sicrhau cydymffurfiaeth â chodau a fframweithiau llywodraethu perthnasol.
- Gweithredu fel cynghorydd i'r Pwyllgor Safonau a goruchwylio trefniadau sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau, datganiadau o fuddiannau a safonau moesegol.
- Cynnal a goruchwylio cofrestrau sy'n ymwneud â buddiannau, datganiadau a lletygarwch Aelodau.
- Ymchwilio i gwynion a materion a gyfeiriwyd drwy sianeli priodol, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gwneud adroddiadau ac argymhellion yn ôl yr angen.
- Cefnogi datblygiad, cynnal a chadw ac adolygu Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod ac adrodd ar ei effeithiolrwydd.

# Y Rôl:
# Swyddog Monitro a Chlerc yr Awdurdod Tân ac Achub

## Cynnal ac adolygu Cyfansoddiad yr Awdurdod.

### Cyngor Llywodraethu a Chyfansoddiadol

- Cynnal a chadw Cyfansoddiad yr Awdurdod dan adolygiad, gan gynnwys Rheolau Sefydlog, cynlluniau dirprwyo, cylchoedd gorchwyl pwyllgorau a phrotocolau llywodraethu cysylltiedig.
- Darparu cyngor annibynnol i'r Awdurdod Tân, y Cadeirydd a'r Aelodau ar faterion cyfansoddiadol, deddfwriaethol a gweithdrefnol sy'n effeithio ar waith yr Awdurdod.
- Cynghori'r Prif Swyddog Tân a'r Tîm Arweinyddiaeth Uwch ar faterion sy'n ymwneud ag uniondeb, llywodraethu ac arfer priodol awdurdod dirprwyedig.
- Cefnogi'r Awdurdod i gynnal trefniadau llywodraethu effeithiol sy'n bodloni gofynion statudol ac arfer gorau cydnabyddedig.

### Clerc i'r Awdurdod Tân ac Achub

- Gweithredu fel Clerc i'r Awdurdod Tân ac Achub, gan sicrhau bod cyfarfodydd yr Awdurdod, ei bwyllgorau a'i weithgorau'n cael eu trefnu a'u gweinyddu'n briodol.
- Goruchwylio paratoi a chyhoeddi agendâu, adroddiadau a phapurau cyfarfodydd, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol sy'n ymwneud â hysbysu a thryloywder.
- Cynnal cofnodion ffurfiol yr Awdurdod a sicrhau bod penderfyniadau a thrafodion yn cael eu dogfennu'n briodol.
- Cynghori'r Awdurdod a'i Aelodau ar faterion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chyfarfodydd, trefniadau llywodraethu a phrosesau gwneud penderfyniadau.
- Cefnogi'r Awdurdod mewn materion sy'n ymwneud â phenodiadau, prosesau llywodraethu a threfniadau Aelodau, gan gynnwys gweithredu lwfansau Aelodau a gofynion statudol sy'n effeithio ar yr Awdurdod.

**Trwy'r cyfrifoldebau hyn, mae'r Swyddog Monitro yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a llywodraethu cryf, gan gefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol y Gwasanaeth.**



# Y Person

## Profiad cryf o gynghori mewn amgylchedd cyfreithiol a rheoleiddio er mwyn sicrhau llywodraethu da.

Rydym yn chwilio am weithiwr llywodraethiant proffesiynol profiadol â hygrededd a all roi cyngor annibynnol ac awdurdodol i'r Awdurdod Tân ac Achub a chefnogi'r safonau uchaf o lywodraethu, uniondeb ac ymddygiad moesegol.

Mae'r rôl hon yn gofyn am unigolyn sydd â dealltwriaeth gref o lywodraethu yn y sector preifat a phrofiad o gynghori uwch-arweinwyr, gan sicrhau'r safonau uchaf o degwch, atebolrwydd a thryloywder o fewn amgylchedd cymhleth yn y sector cyhoeddus. Rhaid bod yn gyfforddus wrth roi cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, er efallai na fydd y cyngor hwnnw yn boblogaidd bob tro.

O ystyried natur ran-amser y rôl, mae'n arbennig o addas i unigolyn sydd â phrofiad sylweddol mewn swyddi uwch a allai fod â phortffolio o rolau llywodraethu ar hyn o bryd, neu fod yn ceisio gwneud hyn

### Profiad a Gwybodaeth Hanfodol

- Profiad sylweddol o oruchwylio a llywodraethu o fewn amgylchedd cymhleth.
- Profiad o gyfrifoldebau statudol.
- Profiad o gynghori aelodau etholedig a thimau uwch arweinyddiaeth, pwyllgorau neu Fyrddau ar faterion llywodraethu, cyfreithiol neu weithdrefnol.
- Gwybodaeth am godau ymddygiad, fframweithiau safonau a threfniadau llywodraethu moesegol.
- Profiad o gefnogi neu weithio gyda phwyllgorau, byrddau neu gyrff llywodraethu.
- Dealltwriaeth gadarn o'r amgylchedd deddfwriaethol a rheoleiddiol a gwerthfawrogiad o sut y mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn gweithredu.

### Sgiliau a Rhinweddau Personol

- Y gallu i roi cyngor proffesiynol annibynnol, cytbwys a dibynadwy.
- Barn gref a gonestrwydd, yn enwedig wrth ddelio â materion llywodraethu neu foesegol cymhleth.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol ag aelodau etholedig a swyddogion uwch.
- Hyderus i roi cyngor efallai na fydd yn boblogaidd bob tro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.
- Dull cydweithredol a phragmatig, ynghyd â'r hyder i herio'n adeiladol pan fo angen.
- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol o fewn rôl ran-amser

### Cymwysterau

Dylai ymgeiswyr allu dangos cymwysterau proffesiynol priodol a phrofiad sy'n berthnasol i lywodraethu, y gyfraith neu weinyddu llywodraeth leol.




iiyama

# Amodau a Thâl

## Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella'ch ffordd o fyw.

**Cyflog**
£110,070 (pro rata ar sail tri diwrnod yr wythnos)

**Gweithle**
Cynigir y rôl ar sail Hybrid, gyda hyblygrwydd i roi cymorth i ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn yr ardal leol. Sylwch y bydd yn rhaid mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod Tân wyneb yn wyneb bob 6 wythnos, a lleoliad y cyfarfodydd hynny yw Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin. Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn yr ardal leol ac sydd eisiau adleoli, mae lwfans adleoli ar gael.

**Buddion**
Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella'ch ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Aelodaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Gwyliau blynyddol hael
- Cyfleoedd i ddysgu a datblygu
- Chwaraeon a chymdeithasol
- Cynghorwyr iechyd a ffitrwydd
- Cyrsiau Cymraeg
- Buddion Siopa
- Iechyd Galwedigaethol
- Aelodaeth o Undeb
- Parcio am Ddim
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Llesiant Gweithwyr
- Elusen y Diffoddwyr Tân

**Amserlenni**
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:
Hanner nos dydd Sul 18 Hydref, 2026
Cyfweliadau ac asesiadau gan y Pwyllgor Penodi:
I'w gadarnhau



# Sut i Ymgeisio

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol fod yn gynrychioliadol o bob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb.**

I wneud cais am y swydd, cliciwch ar **Penna | Jobs** ac uwchlwythwch CV pwrpasol a llythyr eglurhaol. Os bydd unrhyw broblemau, cysylltwch â **Executive@LHH.com**

Sylwch na ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn hirach na dwy dudalen o A4 ac y dylai grynhoi eich sgiliau a'ch profiad perthnasol a'ch cymhellion dros wneud cais am y rôl.

Os hoffech drafodaeth gyfrinachol, anffurfiol am y rôl, cysylltwch â, LHH ar **+44 (0)141 220 6460** neu e-bostiwch y cyfeiriad uchod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol  gynrychioli pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb.

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaoedd.

Rydym yn adolygu ein hymagwedd yn gyson er mwyn sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein ceisiadau a byddem yn ddiolchgar pe gallech lenwi Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch neu os hoffech siarad ag aelod o'n tîm i drafod unrhyw amgylchiadau penodol, anfonwch e-bost at y cyfeiriad uchod.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

